

UWCHSGILIWCH EICH STAFF GYDAG YSTOD O OPSIYNAU DYSGU GYDA MADE CYMRU

Wedi'i
Ariannu'n
Llawn*

- » Mae MADE Cymru yn cynnig cyrsiau ar-lein a hyblyg i fusnesau yng Nghymru ym maes Rheoli Arloesedd a/neu Uwchsgilio ar gyfer Diwydiant 4.0. Mae opsiynau byr a hir ar gael, ac mae pob cwrs yn cael ei addysgu gan arbenigwyr yn y diwydiant.

Rydym yn cynnal ein sesiynau ar-lein ar brynhawn dydd Gwener bob wythnos, ac mae ein hamgylchedd dysgu rhithwir yn golygu y gallwch fynychu darlithoedd yn llythrennol o unrhyw le, gyda chyfathrebu a chydweithredu amser real yn digwydd ar-lein rhwng cyfranogwyr y cwrs. Mae'r carfanau'n cynnwys myfyrwyr o wahanol rolau, cefndiroedd a sectorau, ac mae hyn yn dod â chyfoeth i'r grŵp ac i'r dysgu.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



Bydd myfyrwyr yn gorffen pob cwrs gyda chymhwyster Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant achrededig, ond ni fydd angen i chi aros nes bydd y rhaglen wedi'i chwblhau i gymhwyso'r sgiliau a ddysgwyd ar unwaith. Yn fwy na hynny, mae'r cyrsiau'n cael eu hariannu'n llawn ar gyfer busnesau cymwys ac nid oes terfyn ar faint o aelodau staff sy'n gallu cofrestru.

Opsionau cyrsiau Rheoli Arloesedd:

Rhowch arloesedd wrth wraidd eich gyrfa! Arloesi yw'r sbardun ar gyfer ymchwil a datblygu, dylunio, gweithgynhyrchu, marchnata a datblygu busnes. Datblygwyd ein cyrsiau byr a hir i roi dealltwriaeth gynhwysfawr i fyfyrwyr o sut y gall rheoli arloesedd wneud gwahaniaeth i bobl, sefydliadau a chwsmeriaid.

Gwella Busnes gyda Rheoli Arloesedd (cwrs byr, Lefel 7)

Modiwlau:

- » **Cyflwyniad i Reoli Arloesedd**
- » **Rheoli Datblygu Cynnyrch Newydd**

Ar ôl cwblhau'r ddau fodiwl, caiff myfyrwyr gyfle i barhau â'u dysgu gydag amrywiaeth o opsiynau ar gael.

MSc Rheoli Arloesedd Rhyngwladol (Lefel 7)

Modiwlau:

- » **Cyflwyniad i Reoli Arloesedd**
- » **Rheoli Datblygu Cynnyrch Newydd**
- » **Rheoli Arloesedd Rhyngwladol**
- » **Cyflwyniad i Ddiwydiant 4.0**
- » **Rheolaeth Ariannol a Chynllunio**
- » **Dulliau Ymchwil a Datblygu Proffesiynol**
- » **Prosiect Mawr / Traethawd Hir**

*Ar gyfer busnesau cymwys, cysylltwch â ni i gael rhagor o wybodaeth.

Opsionau cwrs Uwchsgilio ar gyfer Diwydiant 4.0:

Ym myd gweithgynhyrchu sy'n esblygu'n gyson, mae ein cyrsiau Uwchsgilio ar gyfer Diwydiant 4.0 yn gyfle i archwilio technolegau newydd Diwydiant 4.0 a all helpu ein taith gwelliant parhaus, gyda'r potensial i gynyddu effeithlonrwydd, cynyddu cynhyrchiant i'r eithaf a diogelu ein diwydiant gweithgynhyrchu yn y dyfodol.

Gwelliant Parhaus gyda Diwydiant 4.0 (cwrs byr, Lefel 5)

Modiwlau:

- » **Ansawdd Gwregys Gwyrdd Chwe Sigma**
- » **Prosiect Grŵp**

Gweithgynhyrchu Clyfar gyda Diwydiant 4.0 (cwrs byr, Lefel 7)

Modiwlau:


- » **Cyflwyniad i Ddiwydiant 4.0**
- » **Diwydiant 4.0 Uwch neu Dylunio ar gyfer Diwydiant 4.0**

Ar ôl cwblhau'r ddau fodiwl Lefel 7 yma, caiff myfyrwyr gyfle i barhau â'u dysgu gydag MSc llawn mewn Gweithgynhyrchu Uwch.

MSC Gweithgynhyrchu Uwch Diwydiant 4.0 (Lefel 7)

Modiwlau:

- » **Cyflwyniad i Ddiwydiant 4.0**
- » **Diwydiant 4.0 Uwch**
- » **Dylunio ar gyfer Diwydiant 4.0**
- » **Rheolaeth Ariannol a Chynllunio**
- » **Dulliau Ymchwil a Datblygu Proffesiynol**
- » **Cyflwyniad i Reoli Arloesedd**
- » **Prosiect Mawr / Traethawd Hir**



Cyfres o raglenni yw MADE Cymru sydd wedi'u cynllunio i lywio sefydliadau drwy'r rhaglen Diwydiant 4.0 drwy ymchwil a datblygu c ydweithredol ac uwchsgilio. Mae wedi'i hariannu'n rhannol/llawn gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop/Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.

Cysylltwch drwy ffonio **01792 481199**,
e-bostio **MADE@uwtsd.ac.uk**
neu ewch i **www.madecymru.co.uk**

